**Polisi Amgylcheddol – WJEC CBAC Cyf (Western Ave.)**

Mae WJEC CBAC Ltd. yn Gorff Dyfarnu blaenllaw yn y DU sy'n cynnig cymwysterau, asesiadau a hyfforddiant i'r DU ac i'r farchnad ehangach. Mae ein gweithgareddau craidd yn canolbwyntio ar ddysgwyr ifanc a'u llesiant yn awr ac yn y dyfodol, ac o ganlyniad mae WJEC CBAC Ltd. yn ymdrechu i amddiffyn yr amgylchedd ehangach yn ogystal. Rydym yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio â deddfwriaeth yn unig, gan weithio i ddatblygu a gweithredu arferion gorau cynaliadwy.

Rydym yn ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac rydym wedi gweithredu system reoli amgylcheddol a fydd yn ein cynorthwyo i ganolbwyntio ar gyrraedd y nod hwn. Rydym wedi adolygu'r busnes, wedi adnabod meysydd sy'n effeithio ar yr amgylchedd ac wedi gweithredu Cynllun Gwella i ddangos bod ein system reoli amgylcheddol yn parhau i wella ein hamgylchedd a'n perfformiad amgylcheddol ei hun. Rydym yn bwriadu adolygu ein cynnydd yn rheolaidd a byddwn yn gweithredu i adfer y sefyllfa os nad ydym yn cyflawni ein nodau ac amcanion yn llwyddiannus. Wrth wraidd y system reoli hon y mae ymrwymiad cadarn i amddiffyn yr amgylchedd, atal llygredd, cyflawni ein rhwymedigaethau o ran cydymffurfio, a pharhau i wella. Mae ein meysydd gwelliant allweddol yn canolbwyntio ar leihau gwastraff, defnydd o egni a deunyddiau crai. Yn benodol, rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- Adolygu pob rhan o'r busnes i ganfod ffyrdd o leihau ein defnydd o egni, e.e. defnydd cynyddol o oleuadau egni isel, awtomeiddio gwresogi, rheoli awyru a goleuo ac ymgysylltu cynyddol â gweithwyr

- Parhau i fonitro a lleihau ein gwastraff trwy fanteisio ar gyfleoedd newydd i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, gan leihau gwastraff tirlenwi ar bob cyfle

- Lleihau ein defnydd o bapur mewn amgylchedd swyddfa, a lle nad yw hyn yn bosibl, cynyddu ein defnydd o bapur wedi ei ailgylchu, gan ddefnyddio cardbord a phapur o ffynonellau cynaliadwy hefyd

- Adolygu ein polisïau ac arferion teithio a chynyddu effeithlonrwydd tanwydd, gyda'r bwriad o gyfnewid ein cerbydau cyfredol am rai mwy effeithlon fel rhan o raglen barhaus.

I gydymffurfio â'n system reoli byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd ac yn adolygu meysydd allweddol yn flynyddol.

Mae gwybodaeth fanwl am bolisïau a gweithdrefnau Amgylcheddol sy'n berthnasol i bob cyflogai ac adeilad i'w gweld ar HWB CBAC.

| | |
|---|---|
| Ian Morgan | Joanna Moonan |
| Prif Weithredwr | Cadeirydd |
| Dyddiad: 8 Rhagfyr 2023 | Dyddiad 8 Rhagfyr 2023 |

## Polisi Amgylcheddol – WJEC CBAC (Services) Ltd (Treforest)

Mae WJEC CBAC (Services) Ltd yn un o gwmnïau argraffu a dosbarthu mwyaf blaenllaw'r DU, ac yn weithredol yn y farchnad adnoddau addysgol, hyfforddi ac asesu. Mae ein gweithgareddau craidd yn canolbwyntio ar lesiant dysgwyr ifanc nawr ac yn y dyfodol, ac o ganlyniad mae WJEC CBAC (Services) Ltd yn ymdrechu i sicrhau y diogelir llesiant yr amgylchedd ehangach hefyd. Rydym yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio â deddfwriaeth yn unig, gan weithio i ddatblygu a gweithredu arfer gorau cynaliadwy.

Rydym yn ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac rydym wedi gweithredu system reoli amgylcheddol a fydd yn ein cynorthwyo i ganolbwyntio ar gyrraedd y nod hwn. Rydym wedi adolygu'r busnes, gan nodi meysydd sy'n effeithio ar yr amgylchedd a gosod amcanion blynyddol heriol i ddangos ein hymrwymiad llawn i barhau i wella ein system reoli amgylcheddol er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol.

Mae ymrwymiad cryf tuag at y canlynol hefyd yn sail i'r system reoli hon: diogelu'r amgylchedd gan gynnwys atal llygredd, rheoli'r holl faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn gadarn, ac unrhyw ymrwymiadau y gallwn eu cefnogi. Ar hyn y bryd, rydym wedi ymrwymo i gynnal cydymffurfiaeth yn erbyn Cyfnod 4 o BS 8555 ac i'r pwrpas hwn mae ein system reoli amgylcheddol yn cael ei harolygu'n flynyddol gan y corff arolygu trydydd parti sydd wedi'i achredu gan Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, Tarian Inspection Services, i roi mwy o sicrwydd i'n cwsmeriaid ein bod yn cadw at ein hymrwymiadau a'u bod yn cael eu cefnogi gan weddill ein system reoli.

Yn ein meysydd rheoli allweddol rydym yn canolbwyntio ar leihau gwastraff, a’r defnydd o egni a deunyddiau crai.

Yn benodol, rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

Canfod ffyrdd o reoli a, lle bo'n bosibl, lleihau ein defnydd o egni e.e. defnydd cynyddol o oleuadau egni isel, awtomeiddio gwresogi, rheoli awyru a goleuo ac ymgysylltu'n gynyddol â gweithwyr

- Chwilio am ffyrdd o reoli a lle bo modd lleihau ein defnydd o egni e.e. defnydd cynyddol o oleuadau egni isel, awtomeiddio gwresogi, awyru a rheolyddion goleuo a mwy o ymgysylltu â gweithwyr
- Monitro ein ffrydiau gwastraff ac edrych am gyfleoedd newydd i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu er mwyn lleihau'r gwastraff rydym yn ei greu yn gyffredinol, yn ogystal â gwastraff gweddillol i safleoedd tirlenwi
- Cynyddu ein defnydd o bapur a cherdyn cynaliadwy, gan gynnwys cynnyrch sydd wedi'i ailgylchu ac sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth (FSC) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC)
- Parhau i ddefnyddio inc argraffu seiliedig ar lysiau, gan leihau'n sylweddol faint o gyfansoddion organig anweddol (VOCs) sy'n cael eu rhyddhau yn ystod y broses argraffu.
- Annog cyfranogiad cydweithwyr ar y safle, trwy greu Timau Gwyrdd Lleol

I gydymffurfio â'n system reoli byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd ac yn adolygu meysydd allweddol yn flynyddol. Rydym yn adolygu ein cynnydd yn rheolaidd a byddwn yn gweithredu i adfer y sefyllfa os nad ydym yn cyflawni ein nodau a'n hamcanion yn llwyddiannus.

Ian Morgan
Prif Weithredwr

Dyddiad: 24/11/23

Ian Edwards
Director CBAC Services

Dyddiad: 24/11/23